YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid · Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

Nodiadau'r Golygydd
Seryddiaeth a Chrefydd
Ty Cwrdd y Plant
Newyddion Da (II)
Cyflwyno Cyfeillion—
Y Methodistiaid Calfinaidd
Eisteddfod yr Ymofynnydd
"Emyn Gwladgarol"
Gwyl Dewi
Marwgof Nodion yr Eglwysi



Cyf. xlix Ebrill, 1949 Rhif 4

YR YMOFYNNYDD

Pris 6c. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a marwgofion i gyrraedd y Gologydd erbyn y 15eg o'r mis.

Pwyllgor Ymgynghori—Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.; Parchn. S. E. Bowen: E. R. Dennis; D. Evans; E. G. Evans, B.A.; E. O. Jenkins; J. Islan Jones, M.A.; Simon Jones, B.A.; A. J. Martin, B.A.; J. Marles Thomas, M.A.; Lewis Williams; T. O. Williams, M.A.; a'r Dr. D. J. Davies, Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., a Mr. D. Jones.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by Mortimer Rowe, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post, 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By Sidney Spencer, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. Tarrant, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. Stephens Spinks, M.A., Ph.D., the set of six titles, 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol xlix. EBRILL, 1949. Rhif 4.

Nodiadau'r Golygydd.

YMADAWIAD ARTHUR.

Y mae'r Dr. T. Gwynn Jones, Arthur y beirdd a llywydd yr adfywiad llên wedi hwylio'i gwch dros y gorwel tuag Afallon,

"Byw yno byth mae pob hen obeithion,
Yno mae cynnydd uchel amcanion ;
Ni ddaw fyth i ddeifio hon, golli ffydd
Na thro cywilydd na thorri calon."

Yr oedd ei enw'n hysbys i ysgolheigion Prydain a'r Cyfandir ac nid oedd ei hafal yng Nghymru fel bardd, ieithydd a chyfieithydd. Gwelais ef mewn gorawen yn darllen barddoniaeth Ffrengeg am ddwyawr a minnau yn deall heb ddeall gair ; gwelais ef yn deffro wedi ' gweithred lawfeddygol ', chwedl yntau, mewn goruwchystafell gul yn yr Ysbyty a chynghanedd a gweledigaethau'r Dwymyn yn berwi ar ei wefus ; clywais ef yn dinoethi rhagrith crefydd ei oes nes bod gwrandawyr yn cochi hyd at eu cydwybod. Ni chafodd awr o goleg eithr cyflwynodd oes o ddiwylliant. Meddai yn un o'i ysgrifau, "Diau na byddwn byth yn berffaith. Nid yw hynny reswm paham na ddylem *geisio bod*." Rhamant ei stori ef oedd iddo ' geisio bod '.

Clywais ef ar aelwyd ' Bronallt ' yn adrodd am chwilfrydedd hogyn ifanc yn deffro pan welodd hysbyseb ' *Mother Seager's Soothing Syrup* ' mewn pedair iaith ar bedair ochr y botel. Dysgu geirfa'r botel ddinod ac yna rhagddo. Clywais genedl gyfan yn talu teyrnged i'w hanwylyn a'i gwron. Rhwng y ddeubeth, megis cadwyn bywyd, bu ymdrech y *ceisio bod*, a'r ymdrech a wnaeth y dyn. Perygl ein hoes a'n cenedl heddiw yw anghofio hyn o gyfrinach. Goddefer i mi newid gair y bardd a dweud,

"Y bod sy'n *ceisio bod* sy'n bod yn iawn."

Seryddiaeth a Chrefydd.

Gan y Parch. Noel James, B.A., Llundain.

"Pan edrychwyf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a'r sêr y rhai a ordeiniaist ; pa beth yw dyn i ti i'w gofio ? a mab y dyn i ti ymweled ag ef ?
—Llyfr y Salmau.

*"Gellir olrhain yr enwau Ewropeaidd a chlasurol am Dduw i hen air Sanscrit am "godiad haul". Teml i'r haul yw Stonehenge, ac nid yw'n prif wyliau eglwysig ni y dyddiau hyn ond olion (wedi ei cristioneiddio) o arferion oedd yn bod yn nechrau hanes, a'u ffynhonell yn symudiad y cyrff wybrennol."**

Gwyddor a ddaeth i sylw cyffredinol yn yr oes hon yw Seryddiaeth. Bu llyfrau Jeans, Eddington ac eraill yn boblogaidd iawn ac y mae gennym lyfr Mr. Gwilym Owen ar "Rhyfeddodau'r Cread" ar yr un testun yn Gymraeg. Amlwg yw bod y darganfyddiadau hyn ym myd y sêr yn mynd i effeithio'n fawr ar ein syniadau am y Greadigaeth, ac ar ein crefydd.

Yn fyr, yr hyn a wnaed gan seryddwyr yn ddiweddar fu rhoi darlun i ni o fawredd annirnad y Greadigaeth. Dywedir—am a wyddys ar hyn o bryd—bod bywyd dyn yn gyfyngedig i'n daear ; mai un o naw planed yn troi o amgylch seren fach, yr Haul, yw'r ddaear ; ac mai teulu bach a lleol yw teulu'r Haul o'i gymharu â theuluoedd eraill yn y ffurfafen.

O edrych i fyny i'r ffurfafen ar noson glir, rhyw 4,000 o sêr a welir â'r llygad ond gellir gweld can mil o sêr drwy delescôp bychan, a chan miliwn drwy un cryf. Y mae pob un o'r sêr hyn yn gyrff tanllyd a'r mwyafrif ohonynt filoedd o weithiau'n fwy eu maint na'r haul sy'n goleuo'n daear. Y tebygrwydd yw bod llawer iawn o sêr eraill na ellir eu gweld o gwbl. Yn ôl Eddington rhyw un rhan o dair miliwn o'r holl heuliau yn y Greadigaeth yw'r ddwy fil o filiynau sêr a ellir eu hargraffu ar blât drwy delesgôp a ffotograffiaeth.

Hefyd, y mae pellter y sêr oddi wrthym mor arswydus fel y mae'n anodd ei amgyffred. (Nid yn ôl mesur cyffredin y disgrifir y pellteroedd hyn ond drwy fesur "blwyddyn oleuni" ; y pellter a all goleuni wibio mewn blwyddyn, sef 6,000,000,000 milltir). Y seren agosaf atom yw'r Haul—93 miliwn o filltiroedd. Wyth munud y cymer goleuni i gyflawni'r daith hon. Y mae'r seren nesaf atom yn 4 blwyddyn oleuni o bellter oddi wrthym. Cymharol agos yw'r rhain y mae'n debyg.

*Dyfynnir yn llyfr G. Owen : *Rhyfeddodau'r Cread*, tud. 91.

Ynglŷn ag oedran y Greadigaeth, rhaid ceisio meddwl—peth amhosibl bron—mewn termau o filiynau o flynyddoedd. Amrantiad yw cyfnod hanes dyn ar y ddaear o'i gymharu â hyn.

Damcenir bod athrawiaeth Datblygiad (Evolution) yn gweithredu ym myd y ffurfafen fel ar y ddaear. Canfyddir yno wrthrychau sydd "ym mhob gris ar raddfa datblygiad"—heuliau a chyfundrefnau mewn gwahanol gyflyrau. Sut y daeth y cwbl i fod? Atomau, meddir, yn dod at ei gilydd ac yn ffurfio nifylau, clystyrau sêr, heuliau a phlanedau—y cwbl yn cymryd oesau maith. Rhyw wagle diderfyn "cyn bod amser"; wedyn nifer dirifedi o fân-ronynnau mater yn ffurfio math o nifwl cyntefig; hwn yn ymrannu—a'r maint a'r pellter oddi wrth ei gilydd y tu hwnt i bob amgyffred ac yn cymryd oesau maith. Miloedd o bwyntiau golau, wedyn—heuliau—a chlystyrau o sêr ar wahân. Ein haul ni, felly, wedi ei eni gyda miliynnau eraill tebyg iddo.

Plant yr haul, yn ôl Jeans, yw'r ddaear hon a nifer o blanedau eraill, a ddaeth i fod drwy i'r haul basio'n rhy agos i ryw seren arall; gwnaed hwy o'r mater a lusgwyd allan o'r haul. Drwy ddamwain, yn ôl y ddamcaniaeth hon, y daeth ein daear i fodolaeth. Ynglyn â'n cymydog agosaf, y lleuad, bu'n un â'r ddaear rai miliynnau o flynyddoedd yn ôl cyn i'r ymrannu ddigwydd a pheri ei geni.

Beth Sydd a Wnelo hyn oll a'n Crefydd?

Cafodd seryddiaeth gryn ddylanwad ar feddwl dyn ar hyd yr oesau. Anodd ei ddatgysylltu ar y dechrau oddi wrth ser-ddewiniaeth—ofergoel a fu'n gysylltiedig agos â seryddiaeth ac yn ddylanwad gwael ar fywyd dynoliaeth i ofergoel hefyd sydd yn parhau o hyd yn ein byd. (Gwêl *The People*, papur dydd Sul).

Ymhlith cenhedloedd cynnar bu gan ser-ddewiniaeth gryn effaith a dylanwad ar achosion tramor a chartrefol y cenhedloedd hynny. Rhyw dyngedfenyddiaeth serol ydyw yn deillio o'r gred bod cymeriad a dyfodol dyn wedi ei benderfynu gan sefyllfa'r sêr adeg ei eni. Cymharer geiriau Shakespeare:

> "The fault, dear Brutus, is in ourselves,
> Not in our stars, that we are underlings."

Beth fu effaith neu ddylanwad seryddiaeth ar y grefydd Gristnogol? Y mae'r darlun sy gennym heddiw o'r greadigaeth mor wahanol i eiddo'n teidiau fel y mae'n ofynol gofyn: sut y mae hyn yn mynd i ddylanwadu ar syniadau crefydd?

Nid yw'n daear bellach yn ganolbwynt y bydysawd. Nid yw bywyd dyn mwyach yn cael ei ystyried yn uchafbwynt y cread; ffrwyth proses datblygiad ydyw fel popeth arall, proses a fu'n

digwydd am ryw fil miliwn o flynyddoedd. Nid yw bywyd ei hun, efallai, yn gyfyngedig i'n daear ni yn unig. A wnaeth hyn oll unrhyw wahaniaeth i'n syniad am dynged dyn? A ellir credu bod dyn wedi ei greu i bwrpas neilltuol—i adnabod Duw a'i garu a'i wasanaethu—neu ai rhan o gynyrch datblygiad ydyw, datblygiad a fu wrthi yn ddall ddigon heb arddangos bod iddi unrhyw bwrpas neilltuol?

Cred rhai, y Deon Inge yn eu plith, na ddangosodd y Creawdwr ryw urddas neu haelfrydigrwydd neilltuol wrth geisio gwneud y teulu dynol yn brif beth y cyfanfyd. Yn enwedig felly pan gofiwn bod y teulu dynol ei hun yn dangos cymhwyster nerthol yn ein byd heddiw i ladd ei gilydd. Bychanu'r Duwdod, medd Inge, yw tybio ei fod wedi creu bydysawd anferth fel hwn yn unig er ein mwyn ni.

Credwn fod cryn newid wedi digwydd yn ein syniadau crefyddol a diwinyddol oherwydd datblygiadau newydd ym myd seryddiaeth. O leiaf, daeth y byd Copernicanaidd bellach yn rhan o fyd bachgen a geneth ysgol. Ond hyd yn hyn, ar wahân i ambell feddyliwr fel y Deon Inge, ni wnaeth yr eglwysi Cristnogol gyffesu'n swyddogol bod rhaid wrth ddatganiad newydd o syniadau crefydd i gyfateb â hyn. Y canlyniad yw bod llawer un sy'n meddwl drosto ef ei hun yn cael trafferth i gysoni ei wybodaeth am y greadigaeth â'i syniadau crefyddol. Siarad yn iaith y Canol Oesoedd, a chyn hynny, a wna llawer o'r grefydd Gristnogol o hyd er y clywir y gri nad oes bellach unrhyw gweryl rhwng gwyddoniaeth a chrefydd.

Nid ymhelaethaf ond yn unig i ddweud hyn: ei bod yn hen bryd i ni yng Nghymru ddihuno i'r cwestiwn hwn o ddylanwad y syniadau newydd hyn ynglŷn â'r greadigaeth ar grefydd.

Ty Cwrdd y Plant.

TAMEIDIAU TWT—YSTORIAU I BLANT.

Gan J. Tyssul Davis.

Ich Sall Ne Sag!

Geiriau rhyfedd ontefe? Ond gwrandewch. Stori am fachgen bach mab i Foer yn ystod Rhyfel De Affrica yw hon. Deuddeg oed oedd ar y pryd. Yr oedd wedi gadael ei gartref pan oedd ei dad i ffwrdd yn y rhyfel. Torrodd ein milwyr i mewn i'r tŷ lle'r oedd y bachgen a gofyn "Ble mae dy dad?" "Mae e wedi mynd i ymuno â'r fyddin" oedd yr ateb. "Ym mha le?" gofyn-

wyd eto. "Ni allaf ddweud hynny" meddai'r bachgen. "Mae'n rhaid iti ddweud neu fe dy saethaf." Safodd y crwt ei dir. "Nis gallaf!" meddai.

"O'r gorau," meddai'r Major wrth y cwmni milwyr, "paratowch eich drylliau! Nawr ynte! Dywed ar unwaith, neu dy saethu!"

"Yna," meddai'r Major, ar ôl y digwyddiad, "gwelais un o bethau prydferthaf y byd. Dewrder bachgen bach."

Safodd y crwtyn i fyny a gosododd ei ddwylo o'r tu cefn iddo. Cododd ei wyneb, wyneb wedi ei weddnewid gan ysbryd arwrol a defosiynol, ac edrychodd arnaf yn graff gan siarad mewn llais clir a chryf: 'Ich Sall Ne Sag'—*Ni ddywedaf*!

Aeth y Major ymlaen eto, gwasgodd ei law, a dywedodd, "Fy machgen, gobeithio y cawn gwrdd eto mewn dyddiau gwell!"

* * *

Twm Dwl Ddim mor Ffôl!

Yn ein pentre ni yr oedd yna Iolyn, neu fachgen gwirion o'r enw Twm Dwl. Medrai fynd ar neges ond annoeth fuasai rhoi cyfrifoldeb mawr arno.

Un diwrnod aeth ceffyl gŵr Tŷ Mawr ar goll. Yr oedd y marchog wedi gwario gormod o'i amser yn y dafarn ac fe dynnodd y march ei ffrwyn yn rhydd, a chrwydrodd i ffwrdd. Bu chwilio mawr am y ceffyl, ond heb lwyddiant. O'r diwedd cynigiodd y meistr chweugain i bwy bynnag a gai afael ynddo. Yn fuan iawn gwelwyd Twm yn dod i'r pentre yn arwain y ceffyl colledig.

"Sut y medraist ti gael gafael arno?" meddai'r meistr syn.

"'Rown i'n eistedd fan hyn, ac yn meddwl i ba le'r awn i pe bawn i'n geffyl," meddai Twm. "Mi es i'r fan hynny a dyna le'r oedd e. Dyna'i gyd." Derbyniodd y wobr yn hapus iawn ac i ffwrdd â Twm Dwl. Y peth sylweddol yw fod digon o ddychymyg gan y gwirion i'w ddodi ei hunan o'r tu fewn i'r ceffyl, mewn ffordd o siarad, ac efelychu ei feddwl neu ei reddf a felly deall ei amcan. Am hynny llwyddodd lle methodd dynion gwybodus.

Dywed Emerson na fedr arlunydd dynnu llun llwyn heb iddo yn gyntaf ddod yn llwyn. "A painter told me that nobody could draw a tree, without in some sort, becoming a tree."

Dyna gyfrinach Twm.

* * *

Y V.C. I'r Gath.

Ambell waith fe fydd y brenin yn rhoi medal neu arwydd arall i bobl sydd wedi bod yn wrol dros eu gwlad neu'n ddefnyddiol i'w cyd-ddynion. Ond a glywsoch chwi erioed am roddi medal i anifail? Digwyddodd hynny yn Venice un tro, a dyma'r stori.

Ychydig flynyddoedd cyn y rhyfel diwethaf yr oedd dwy gath yn byw yn hapus gyda'i gilydd ar lan canal. Digwyddodd i'r ddwy gath gael cathod bach yr un pryd. Sabina oedd enw un a Vanda oedd enw'r llall.

Yr oedd Vanda yn fwy mentrus na'i chyfeilles, ac un diwrnod fe syrthiodd i'r dŵr a methodd ddianc. Neidiodd Sabina i'r canal ar ei hôl ; ymdrechodd i'w safio ond ni lwyddodd. Ac yn awr yr oedd cathod bach Venda heb fam. Edrychodd Sabina ar yr amddifaid bach a chlywodd eu cri. Saith o blant heb fam a hi'i hunan â chwech ganddi'n barod. Nid oedd dim i'w wneud ond mabwysiadu teulu ei chymydog a magu cathod Vanda yn ogystal. Busnes fawr oedd edrych ar ôl tri ar ddeg o blant ond bu Sabina yn ffyddlon i'w ffrind a'i phlant.

Daeth y mater dan sylw Cyngor Venice. Ystyriodd y Cyngor ei fod yn esiampl o ddewrder ac o ddynoliaeth hefyd. Penderfynwyd rhoddi medal i Sabina a llond soser o laeth bob pryd fel arwydd o'i gwerthfawrogiad.

Dyna dipyn o synnwyr, onide ?

Newyddion Da.

II.

Gan Y Parch. J. Tyssul Davis, B.A., Bryste.

Y mae llawer o bethau ffôl ac anghredadwy yn yr efengylau, eithr nid oes undim mor ffôl â : "Cred a bydd gadwedig." Mae'r frawddeg yno wrth gwrs, eithr cyfieithiad arwynebol ydyw.

Edrychwch o'r tu cefn iddi. Yn aml cawn y geiriau: *cadw*, *achub*, *gwaredu*, *safio*. Gofynnir heddiw, Achub o beth ? Nid yw'r syniad yn cydfynd ac egwyddor Datblygiad.

"Ti a elwi ei enw ef Iesu, oblegid efe a *wared* ei bobl" (Math. i. 21).

"Daeth Mab y Dyn i *gadw* yr hyn a gollasid (Mt. xviii. 11).

"Danfon Duw ei Fab fel yr *achubid* y byd" (Ioan iii. 17).

"Cred a *chadwedig* fyddi" (Act. xvi. 31).

Yn y gwreiddiol yr un gair a ddefnyddir am yr holl eiriau yma. Maent i gyd yn ffurfiau o'r ferf *Sózo* (I rescue, I keep safe, I keep alive). " 'Rwyf yn cadw, yn achub, yn gwaredu, yn safio." Ond y mae'r ferf yn ei thro yn dod o ferf arall, hynny yw : *Zao*—I live, *Zoe*—"Living." (Yr un gwreiddyn a geir mewn geiriau fel Zoology a Zodiac).

Felly ystyr ddyfnaf y gair *achub* ydyw "cael bywyd." Mae'r ffaith yma wedi llwyr gyfnewid beirniadaeth yr Efengylau. Gadewch inni gymhwyso'r wybodaeth newydd.

"Nid Iachawdwr bellach ydyw'r Iesu, eithr *Rhoddwr Bywyd.* Ni chollwyd yr ystyr yma'n gyfangwbl. Er enghraifft : "A chan gredu, y *caffoch fywyd* yn ei enw ef." (Ioan xx. 31).

Ar yr egwyddor hon, yn lle : "Iesu a *wared* ei bobl" ; yn hytrach : "Iesu a *rydd fywyd* i'w bobl." (Ioan iii. 17). Fel y dywed yr adnod flaenorol : "Ond caffael ohono fywyd tragwyddol."

Ynglŷn â'r adnodau yma cawn air arall o bwys mawr yn yr efengylau : *Pistis* y y Groeg ; *Ffydd* yn y Cyfieithiad Cymraeg ; *Credu* yw ei ffurf fel berf. Os ystyriwch am foment, gwelwch mai gwan iawn ydyw ' Credu ' i gyflwyno a chorffori Ffydd. Cofiwch beth sy'n dilyn mynegiant o'r gallu hwn. "Os oes gennym ffydd mae gennym nerth i symud mynyddoedd" (I Cor. xiii. 2). "Pe bai gennych ffydd megis gronyn mwstard, chwi a ddywedech wrth y mynydd hwn, symud oddi yma draw, ac efe a symudai ; ac ni bydd dim amhosibl i chwi" (Mt. xvii. 20). Pwy feiddia haeru y gall ' credu ' roddi nerth i wneud gwyrthiau mor rhyfeddol â hynny. Mae'r gair credu yn rhy wan, yn rhy ddibwys, yn rhy ddistadl i gyflwyno cynnwys cadarn yr egwyddor a elwir *pistis* neu ffydd.

"Faith is a sixth sense," meddai un esboniwr. Synnwyr *ysbrydol* sydd yn y gair ffydd ; mater o syniad deallol neu *feddyliol* sydd yn ' credu.' Golyga Ffydd fod dyn nid yn unig yn hysbys o rinweddau Ysbrydol eithr hefyd ei fod yn meddiannu ar nerth a grym ysbrydol. O'r meddiant hwnnw ceir addewid o rym trydanol, fel eiddo'r Dynamo i oleuo dinas a gyrru'r cerbydau tân a'r teithlongau mawr. Cofiwch beth sy'n canlyn mynegiant o'r gallu hwn, "Bwriant allan gythreuliaid, llefarant â thafodau newyddion, seirph a godant ymaith, ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt niwed ; ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw a hwy a fyddant iach" (Marc xvi. 18). Cyfrifir y grym anorchfygol hwn, y gallu meistrolgar ac awdurdodol, y cydymdeimlad dwfn a'r cariad dwyfol yn gyfystyr â'r ansawdd neu'r gyneddf a elwir—Ffydd. Eithr ni wn i ddim am un credadyn a all ddangos y fath allu. Gwn na wnaeth ' credu ' ddonio un Cristion â'r fath bŵer. Yr agosaf a welais i erioed oedd gwaith dyn a elwid yn *Psychic Healer* a fedrai alluogi benyw a oedd yn dioddef oddi wrth Rheumatoid Athritis i gerdded yn groes i lwyfan neuadd yn Llundain. Benyw a fuasai'n glaf a methu cyffro o'i gwely am ddeng mlynedd.

Mae agendor eang rhwng : "Y neb a gredo a fydd cadwedig" (Marc xvi. 16) a "Y neb a feddiana ffydd, a gaiff ei lanw â Bywyd."

Yr wyf am awgrymu mai'r syniad olaf ydyw y syniad mwyaf synhwyrol a'r mwyaf agos at y gwreiddiol. Wfft na allwn roddi brawddeg fwy byr a chryno, mwy prydyddol a sylweddol gan fod y geiriau *achub* a *chredu* yn awr wedi colli eu clod.

Cyflwyno Cyfeillion.

RHAGAIR.

WRTH gychwyn y gyfres yma sy'n CYFLWYNO CYFEILLION gwahanol adrannau o'r corff Cristnogol yn ein gwlad y mae'r Golygydd yn mentro i dir sydd braidd yn newydd. Hyderir y gellir i raddau gyfanu'r corff a chlosio'r frawdoliaeth drwy ymdrechion fel yma i geisio dosbarthu gwybodaeth ddi-ragfarn am ffydd pobl eraill. Ac yng ngoleuni'r wybodaeth yma efallai y gallwn ninnau ganfod gwerth neges yr Undodwr. Dyma gopi o'r llythyr a ddanfonwyd at ein gwŷr gwadd :—

"Y mae yn hysbys i bawb fod dieithrwch mawr yn bodoli o hyd rhwng gwahanol adrannau o'r Eglwys Gristnogol yng Nghymru. Gŵyr un adran am wendidau honedig yr adran arall ac ar sail y rhagfarnau yma yn aml fe adeiledir gwahanfur gelyniaethus. Y mae'r YMOFYNNYDD am geisio bod yn deilwng o'i enw drwy gyflwyno i'w ddarllenwyr grynodeb syml o gyfraniadau arbennig pob adran at gyfanswm diwylliant ysbrydol a moesol ein cenedl. Ni ellir gwneud hynny'n deilwng heb gydweithrediad hynaws gŵyr fel chwi. Ceisiaf gennych felly ysgrif fer ar gyfraniad arbennig eich enwad (neu eglwys). I osgoi pob ymrafael ac ysbryd pleidiol ni chaniateir unrhyw ohebiaeth ynglŷn â materion diwinyddol, etc., i ganlyn ysgrifau'r gyfres, eithr caniateir i chwi ryddid di-amod yn eich ysgrifau."

Dylid nodi na all y Golygydd fod yn gyfrifol am unrhyw gamesbonio neu gamddeall o'r llythyr uchod a all ddigwydd.

Y METHODISTIAID CALFINAIDD.

Gan y Prif Athro G. A. EDWARDS, M.A., D.D., Aberystwyth.

I.

DENGYS Blwyddiadur swyddogol y Cyfundeb am 1949 mai rhif yr holl gymunwyr yn y flwyddyn 1947 oedd 166,599 (81 mil ohonynt yn y Gogledd, 55 mil yn y De a 28 mil yn y Dwyrain) ; bod 619 o fugeiliaid ar eglwysi, gyda 192 o weinidogion eraill heb ofalaeth fugeiliol a 121 o bregethwyr, sef efrydwyr yn y colegau a rhai mewn galwedigaethau eraill ; ac yn ystod yr un flwyddyn casglwyd £572,786 at bob achos ; rhifa capeli ac adeiladau'r Cyfundeb 1660.

Dyna ddigon o ffigurau i roddi syniad am gryfder ' allanol ' yr Hen Gorff mewn aelodau, gweinidogion, adeiladau ac arian.

Dywedir yn fynych mai ef yw'r cyfundeb mwyaf lliosog yng Nghymru a'r un mwyaf Cymreig ei drâs a'i anian.

Buasai'n hawdd iawn inni roddi braslun o hanes y Cyfundeb o'i gychwyniad yn 1735 hyd y dydd hwn, ond prin y disgwylir hynny mewn erthygl fer ac y mae digon o lyfrau hwylus wrth law i'r sawl a fyn wneuthur hynny drosto'i hun. Enwaf bedwar llyfr yn unig : Richard Bennet—*Blynyddoedd Cyntaf Methodistiaeth Galfinaidd* ; D. D. Williams—*Llawlyfr Hanes y Cyfundeb* ; John Roberts—*Methodistiaeth Galfinaidd Cymru* ; R. T. Jenkins—*Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif*.

II.

Digon yw dywedyd mai plentyn y Diwygiad Efengylaidd grymus a ysgydwodd Gymru a Lloegr tua 1730—50 yw'r Hen Gorff : a dynion ifanc dan 30 mlwydd oedd ei bedwar arweinydd, Howel Harris, Daniel Rowlands, Williams Pantycelyn a Howel Davis pan gyfarfu'r Sasiwn Unedig gyntaf yn Watford yn 1743. Seiadau neu gymdeithasau neilltuol oedd offeryn priod lledaenu a chadarnhau'r eglwys ifanc : ac erbyn 1742 gofynnent am apwyntio cynghorwyr, ac o'r cyff hwn tyfodd pregethwyr a blaenoriaid y dyfodol. Llesteiriwyd tipyn ar gynnydd yr Eglwys gan ymraniad poenus rhwng Harris a Rowlands (1745—1763) ond o drugaredd daeth cymod rhyngddynt yn 1763.

Cyfnod o gynnydd mawr oedd yr ail sy'n ymestyn o 1785 i 1840, cyfnod Dafydd Jones, Llangan ; Thomas Charles ; Thomas Jones o Ddinbych a John Elias o Fôn. Pregethwr oedd y cyntaf, gyda'r ysgolion Sul a'i lyfrau y gwnaeth Charles ei waith mawr, yr oedd Thomas Jones yn un o'r rhai a ordeiniwyd yn yr ordeiniad cyntaf yn 1811, a bu gan John Elias ran fawr yn llunio'r Gyffes Ffydd yn 1823 a'r Weithred Gyfansoddiadol yn 1826. Cychwynwyd llawer mudiad cyn diwedd y cyfnod hwn, fel Cenhadaeth Gartrefol, Coleg y Bala (1837), Cenhadaeth Dramor (1841).

Hawdd eto fyddai enwi'r prif ffeithiau yn y cyfnod ar ôl 1840 ond rhaid ymatal a sôn am bynciau mwy cyffredinol.

III.

(*a*) Presbyteraidd neu Henaduriaethol yw ffurf lywodraeth y Cyfundeb. Cred yn offeiriadaeth gyffredinol credinwyr a chydraddoldeb yr Henuriad. Un Urdd sydd gan Bresbyteriaeth ond bod iddi ddwy ffurf—henadur lleygol (blaenor) a henadur gweinidogaethol (gweinidog). Daw Presbyteriaeth y Cyfundeb i'r golwg yng nghyfres a graddau ei chynghorau : dyma'r drefn—yr eglwys unigol, y Cyfarfod Dosbarth, y Cyfarfod Misol (Henaduriaeth), Cymdeithasfa (tair) a'r Gymanfa Gyffredinol a ddylai gyflawni dyletswyddau Llys Uchaf y Cyfundeb.

(*b*) Yn ddiwinyddol, Protestanaidd a Chalfinaidd yw'r Corff. Gwelir hyn yn eglur dros ben yn ei Gyffes Ffydd o bedair erthygl a deugain. Dyledus iawn ydynt i Erthyglau Eglwys Loegr ac yn enwedig i Gyffes Westminster (1643) a thynerwyd tipyn ar Uchel Galfiniaeth yr erthyglau gan y Diwygiad Efengylaidd ei hun a chan rai o'r arweinwyr wedi dyddiau John Elias. Y mae llawer, fe ddichon, o aelodau'r Cyfundeb na wyddant fawr am Galfiniaeth.

(*c*) Dyddiad pwysig iawn yn y cyfnod diweddai yw 1932, oherwydd yn y flwyddyn honno pasiwyd mesur drwy'r Senedd a wnaeth ddau beth : (1) Sicrhau i'r Cyfundeb ei ryddid ysbrydol drwy symud y gwaharddiad yn y Weithred Gyfansoddiadol yn erbyn newid dim ar y Gyffes Ffydd, cyhyd ag y bydd y newid yn gyson â'r Ysgrythur ac â'r Ffydd Efengylaidd Ddiwygiedig a Thrindodaidd gall yr eglwys newid ei chredo os dymuna hynny wedi trafod manwl yn ei llysoedd. (2) Corffori'r Cyfundeb fel Corff â hawl ganddo i ddal eiddo (a phenodi bwrdd Eiddo i'r amcan hwn). Ffrwyth Comisiwn atrefnu wedi rhyfel 1914—18 oedd hyn a'r caniatâd i ddefnyddio fel ail enw swyddogol "Eglwys Bresbyteraidd Cymru" at yr hen parchus.

(*d*) Bu Comisiwn atrefnu wedi Rhyfel 1939—45 a deilliodd rhai cyfnewidiadau o hwnnw, megis (1) Ffurfio Cymdeithasfa (Sasiwn) Newydd, un yn y Dwyrain ar gyfer y Saeson a'r Eglwysi Saesneg ; (2) Sefydlu Cronfa Gynnal er mwyn rhoddi'r weinidogaeth ar dir cadarnach o ran trefn a chynhaliaeth. (3) Diwygio tipyn ar ffurfiau y gwasanaethau swyddogol.

Wyneba'r Hen Gorff gyfnod anodd a phroblemau mawr yn y dyfodol agos ond gwna hynny gyda'i feddwl yn effro a'i ewyllys yn ffyddiog, gan ddibynnu ar deyrngarwch ei aelodau ac ar yr adnoddau Ysbrydol a'i cynhaliodd hyd yma. Boed bendith y Nef eto ar ei waith.

Eisteddfod Yr Ymofynnydd.

BEIRNIADAETH AR Y TRAETHAWD BYR : "GWELLA'R YMOFYNNYDD."

Gan J. J. Evans, M.A.

Daeth pum traethawd i law, ond siomedig yw'r gystadleuaeth. Rhof ychydig sylwadau ar bob un, gan nodi rhai o'r gwallau gramadeg.

Haws i'w Hanlo : Ychydig o'r ddawn ysgrifennu sydd gan hwn, ac y mae ei waith yn frith gan wallau elfennol. Mae'r Ymofynnydd yn cynnwys "gormod o hanes hen gapeli a'u gweinidogion," heb nemor ddim o ddiddordeb i'r plant. Wele rai o'r gwallau : mae'n lyfr (mae'n llyfr) ; gwybur

(gwyddir, gwyddys) ; dyma yr ateb (dyma'r ateb) ; i fewn (i mewn) ; gan rhoi (gan roi).

Maesgwyn : Cwyna hwn eto mai gweinidogion yn unig fydd yn traethu eu llên a'u profiad yn "Yr Ymofynnydd", a charai weld mwy o le i'r lleygwyr. Awgryma hefyd y dylid cael un o bob eglwys yn ei dro i draethu ar gyflwr yr eglwysi. A rhodder eu lle i "gritics" yr enwad ! Gellid gwella llawer ar ei Gymraeg. Gwan yw "pwnc llosgfawr" (am "bwnc y dydd"), a gwell hepgor "yna" mewn ymadroddion fel "mae yna le" ("mae lle"), etc. Nid oes ganddo'r un syniad am ddefnyddio'r acen grom, yr anadliad caled (h) nac am ddyblu'r cytseiniaid. Ceir yr acen grom ganddo mewn geiriau fel : bach, her, gornest, maes—dyblir y gytsain yn "cysylltiedig," "o bosibl," etc., a dyry "h" mewn geiriau fel "cymell."

Gwyliwr ar y Mur : Traethawd digon di-lol, a gweddol gywir. Dyma'r tri gwelliant a gynnig : cael oriel o enwogion, rhagor o farddoniaeth ("sef darnau heb fod yn rhy hir"), ac ambell gystadleuaeth. Wele rai o'r gwallau : "darllenwyr na sy" ("nad ydynt") ; "efallai mai nid" ("nad") ; "mae yna arferiad" ("mae arferiad") ; "hanes ryw berson" ("rhyw berson").

Gobaith : Gan hwn y mae'r Cymraeg mwyaf graenus, ond braidd yn fain yw'r defnydd. Myn fod llaw farw traddodiad a musgrellni henaint ar y cylchgrawn, a bod rhaid wrth ysbryd gwrthryfelgar a byw. Y mae angen darparu'n helaethach ar gyfer yr ifainc—mwy o sgrifennu cynnil, heb foesegu diflas—a "pheidier â rhoi gormod o le i'r marwgofion." Y mae'r cystadleuydd hwn yn mentro rhoi ergyd llaw chwith i'r Golygydd—"Nid yw bardd na phroffwyd, gwerth yr enw, yn fodlon nes byddo wedi'i ddisgyblu ei hun i sgrifennu iaith sy'n gwbl deilwng o'r neges sydd ganddo."

Gwenra : Dyma'r cystadleuydd mwyaf uchelgeisiol. Nid wyf yn hoffi ei ragymadrodd, a gellid yn hawdd ei hepgor. Mae ganddo amryw o awgrymiadau da, ond nid oes fawr o syniad am arddull ; yn wir, rhyw fath o nodiadau yw llawer o'r traethawd. Y mae ei Gymraeg yn bur wallus, a marciwyd y prif wallau ar y copi. Y mae hefyd yn rhy hoff o ymadroddion Saesneg, megis "short cut", "quick service", "save work", etc.

I grynhoi, nid oes yr un traethawd i fyny â'm disgwyliadau. Gan "Gwenra" y mae'r awgrymiadau gorau, ond y mae mwy o raen llenyddol ar waith "Gobaith". Rhanner y wobr rhyngddynt.

[Daeth traethawd "Glan Tawe" i law ar funud olaf y 15ed. Dyfarna'r beirniad ei fod yn gydradd â'r ddau uchod. Cyhoeddir ef a'r feirniadaeth arno y mis nesaf.—*Golygydd*].

BEIRNIADAETH YR ENGLYN : "GWYL DEWI".

Gan y Parch. G. R. Tilsley, M.A.

Derbyniwyd tri englyn, yn dwyn yr enwau Go-lew, Dafydd a Cymro, ac nid yw safon y rhain yn uchel.

Go-lew : Digon yw dywedyd am hwn mai un llinell gywir sy ganddo, bod ei odl yn wallus, a'i sillafu yn anghywir, ac mai englyn i'r Sant sydd ganddo ac nid i'r Wyl.

Dafydd : Englyn cywir ei gynghanedd, ond pur afrosgo ei fynegiant. Gair llanw gwael yw "hud" yn y cymal cyrch, ac nid yw neges yr esgyll yn glir o gwbl.

Cymro : Englyn cywir eto, ac ychydig yn sicrach ei gerddediad nag eiddo Dafydd. Cloff braidd yw aceniad y llinell gyntaf, ond cryfha wrth fyned rhagddo, er na hoffaf y sillgolli yn y llinell olaf. Dyma'r gorau, a theilwng yw o'r wobr.

BEIRNIADAETH AR YR "EMYN GWLADGAROL."

Gan y Parch. E. R. Dennis.

Danfonwyd wyth emyn i'r gystadleuaeth. Dywedir mai gwaith caled iawn ydyw cyfansoddi emyn da, a sicr yw mai gwaith mor galed â hynny ydyw ceisio eu beirniadu pan fyddant yn agos iawn i'w gilydd mewn teilyngdod.

Cawsom amrywiaeth yn y mesurau ; y dymuniad a'r weddi yn debyg i'w gilydd ymbob un ohonynt, ac ar y cyfan cafwyd ystwythder a symlrwydd naturiol yn y gwahanol emynau er i ambell linell wan lithro i mewn hwnt ac yma.

Mewn cywirdeb iaith a chystrawen maent yn hynod o dda ac fe allesid canu pob un ohonynt yn hwylus iawn. Gwyddys fod eisiau rhywbeth ychwanegol mewn emyn na chywirdeb iaith, gan fod emyn i apelio at y galon yn ogystal â'r pen, a'r apel hwn—at galon a theimlad—efallai, sy'n dylanwadu fwyaf ar y beirniad, ac oherwydd hynny, dyfarnaf y wobr i "*Ger yr Afon*".

[Y Buddugwyr i ddanfon eu henwau i'r Golygydd ar frys.—*Golygydd*].

"GWELLA'R YMOFYNNYDD."

"Gwenra."

Beth a geisiwn gan y Golygydd newydd ? Mae'r Ymofynnydd fel yr oedd wedi gwneud gwasanaeth mawr, ond a ydyw'n taro'r oes yma, faint o'r do sydd yn codi sydd yn ei ddarllen ; beth am yr ifainc, a ydynt yn edrych ymlaen amdano ? Yr ydwyf wedi gweled llawer o'i dudalennau heb eu torri, gormod o drafferth i'w hagor, ond yn ei dderbyn yn selog. Gwn hefyd am rai a diddordeb ynddo ond nid yw'r diddordeb wedi cyrraedd y boced.

Cydnabyddir ef yn fisolyn o safon ; rhaid cadw'r safon a muriau allanol yr hen dŷ ond gosoder *modern saving devices* o'i fewn. Dyma rai awgrymiadau at ei fywhau.

(1) Cadw'r muriau cedyrn ; (2) Chwilio am ddiddordebau newydd ; (3) Colofn i'r Plant ; (4) Erthyglau ar bynciau'r dydd yn

gyson gan ein gweinidogion ; (5) Gofalu peidio â'i wneud yn rhy academig a'i wasgu allan o fodolaeth ; (6) Mwy o hanes lleygwyr ein heglwysi ; (7) Mwy o hanes eglwysi'r enwad heddiw ; (8) Peidio a chymrodeddu—cofio mai misolyn yr Undodiaid ydyw ; (9) Llai o drosi o'r Saesneg ; (10) Ceisio erthyglau sy'n creu diddordeb brwd ; (11) Lle i'r bardd a'r proffwyd, heb anghofio am y lleygwr ; (12) Erthyglau gan wŷr cymwys ar (*a*) Beth ydyw agwedd ein henwad at addysg grefyddol yn yr ysgolion. Beth am yr Undodwr bach ? (*b*) Ble mae'r Undodiaid ym myd gwleidyddiaeth ? (13) Peidio â byw yn y gorffennol, eithr rhoi neges i'r Undodwr blaengar.

Gwell iddo farw na'i dderbyn heb ei agor—nid fel y Beibl mawr a'r cloriau aur, heb ôl bys arno. Mae ofn ar y lleygwr fentro i dudalennau'r Ymofynnydd, cofiwch fel y dywedodd un, "Mae canu gwael wedi creu saint a chanu da wedi creu cythreuliaid." Dylai'r Ymofynnydd fod yn gyfrwng i ateb a ganlyn : (1) Beth yw Undodiaeth ? (2) Beth yw ein lle ymhlith yr enwadau eraill ? (3) A ydyw Undodiaid yn Gristnogion ; (4) Beth yw ein credo ; (5) A ydyw Undodiaeth wedi gorffen amdani ? (6) Beth yw amcan cadw'r Cwrdd Cymun i'r Undodwr ? (7) A oes eisiau'r eglwys yn y byd sydd ohoni ? Cofiwch hanes y gweinidog yn cymell cyfaill i fynychu'r capel ac yntau'n ateb : "Mae'r radio yn handi iawn." "Wel," meddai'r gweinidog, "mynnwch y radio i'ch claddu, chi te !" Dywedodd gwalch arall ein bod yn byw yn oes y ' Four Wheelers,' mynd mewn cerbyd i'n bedyddio, i'n priodi ac ar y daith olaf. Rhwng y teithiau yma dylai fod amser i ddarllen Yr Ymofynnydd ; mae hwn yn dod i'r tŷ nid ar draed nac mewn cerbyd a gofyn am gadair esmwyth yn unig.

A ydyw ein pobl yn cymryd digon o ddiddordeb ynddo i ofalu helpu i'w gael allan mewn pryd. Gofalu fod gohebydd swyddogol ym mhob eglwys, nid gadael y gwaith i'r gweinidog, a gobeithio y bydd yr ysgrifennydd yn danfon hanes gweithgarwch yr eglwys. Gofaler fod un yn swyddogol gyfrifol : "Busnes pawb, nid busnes neb."

Gan gofio mai dyma'r unig fisolyn Cymraeg sydd gennym, ac ef ar ei daith drwy'r ail ganrif, os collwn hwn, tybed faint y golled ? Rhaid cadw'r Ymofynnydd yn fyw, a rhoi ynni newydd ynddo. Rhaid i'r eglwysi gymryd mwy o ddiddordeb ynddo. Rhaid i'r teulu Undodaidd roddi mwy o barch iddo. Rhaid cael gafael ar yr Undodiaid sydd ar wasgar—*Post Mail List* a rhaid i bob eglwys ofalu fod copi o'r Ymofynnydd yn y llyfrgell leol. Hefyd canfaswch eich cyfeillion i'w ddarllen a'i dderbyn.

Rhyddid—Gwirionedd—Cariad.

Mae'r rhain yn werth eu cadw a'u cyflwyno i'r oes newydd. Bydded Yr Ymofynnydd fyw ! (*Cwtogwyd*).

"GOBAITH."

'NID da lle gellir gwell.' Mae'r YMOFYNNYDD dros ei gant oed bellach, ac y mae'n bryd iddo gael ei ail eni—er gwell. Ers rhai blynyddoedd, fel y tynnai'r YMOFYNNYDD at ei ganfed pen blwydd anodd peidio â chanfod llaw farw traddodiad a musgrellni henaint yn effeithio'n drwm arno. Nid cylchgrawn i bobl ifainc yn chwilio am y gwirionedd ydoedd bellach, ond cylchgrawn i'r hen a'r canol oed sydd yn byw ar atgofion am y dyddiau a fu pan oedd Undodiaeth yn ei gogoniant yng Nghymru ac yn rym yn ein gwlad. I'w wella felly, rhaid rhoi ' ysbryd y peth byw ' ynddo, drachefn—tipyn o ysbryd gwrthryfelgar Tomos Glyn Cothi a Iolo Morgannwg.

Afraid yw cynnig nifer o fân welliannau i'r Golygydd newydd. Mae'n ŵr ifanc a chanddo ddychymyg, yn fardd ac yn llenor ac at hynny'n wrthryfelwr os yw'n Undodwr—a'r gwrthryfelwr sy'n medru creu mewn bywyd a llenyddiaeth fel ei gilydd. Mae'r cymwysterau ganddo, ac o'r herwydd, mawr yw ei gyfle a'i gyfrifoldeb.

Hoffwn awgrymu y dylai'r YMOFYNNYDD apelio'n arbennig at yr ieuainc. Os gellir denu'r ieuainc i'w darllen heddiw bydd YR YMOFYNNYDD ar ei ennill fory, oherwydd gan yr ifanc y mae'r weledigaeth. Rhaid cael rhywun i sgrifennu iddo sydd â'r ddawn i adrodd stori neu hanesyn ganddo—stori wedi'i hysgrifennu'n gain ac yn gynnil heb y moesegu ar y diwedd sy'n troi'n ddiflastod. Nid trwy rygnu arni mewn moeswersi y megir glew a dynion o farn, unplyg eu cymeriad.

' Hawdd maddau gwall gramadeg os yw dyn yn fardd, neu'n broffwyd,' medd y golygydd newydd. Digon gwir. Ond nid yw bardd na phroffwyd, gwerth yr enw yn fodlon nes byddo wedi'i ddisgyblu'i hun i sgrifennu iaith sy'n gwbl deilwng o'r neges sydd ganddo i'w lledaenu. Pan fo'r iaith yn wallus a diraen a'r arddull yn llac ac anystwyth, arwydd sicr yw hynny o wendid yn ansawdd y neges neu annidwylledd yn y bardd neu'r proffwyd. Cymraeg graenus, ystwyth a naturiol sydd eisiau heb fod yn or-ysgolheigaidd.

Peidier a rhoi gormod o le i'r ' Marwgofion,' gan gofio am gwpled y Ficer Prichard :

> ' Ac ni welir mwy o'n hôl,
> Nag ôl neidr ar y ddol.'

wedi i ni groesi'r ffin. Gellir cymeradwyo ac efelychu'r ' *Inquirer* ' am ei gynildeb yn y cyfeiriad yma.

Rhwydd hynt i'r YMOFYNNYDD i wella cymaint fel ag i haeddu cefnogaeth pob cartref Cymraeg lle y ceir plant a phobl ieuainc. A phwy a ŵyr na fydd ambell ' smotyn du ' yng Nghymru unwaith eto.

"EMYN GWLADGAROL."

Arglwydd mawr yr holl arglwyddi
Mewn trugaredd cofia'n gwlad,
Yn ei chyni a'i chyfyngder
Dyro iddi gymorth rhad.
Pan fo llais y gelyn creulon
Yn fygythiol uwch ei thir,
Rho ddoethineb yn ei chalon
Cadw'i holl fwriadau'n bur.

Rhag pechodau'r byd a'i ddrygau
Arglwydd grasol cadw'n gwlad,
Boed i burdeb ac uniondeb
Yn ei chalon gael mawrhad.
Boed i heddwch a thangnefedd
Lifo mwyach yn ddi-drai
Ar ei bryniau a'i dyffrynnoedd
I'w diogelu a'i bywhau.

Rho arddeliad ar ei chrefydd,
Ei Sabathau cadw'n lân,
Yn ei heglwys cadw'r emyn,
Yn ei henaid cadw'r gân.
Maddau'n dirion ei chamweddau,
Gwared hi rhag twyll a brad,
Ac yn agos iawn i'th galon
Arglwydd grasol, cadw'n gwlad.

"Ger yr Afon."

(Beth amdani i'r Gymanfa ar y dôn 'Sanctus'.)

GWYL DEWI.

Ym mro, gŵyl Gymraeg yw hi—i'n heniaith
Annwyl, gŵyl dadeni ;
A rhoed Duw ysbryd Dewi
O'i ŵyl 'nawr i'n cenedl ni.

"Cymro."

Marwgofion.

Chwefror 26 bu farw EVAN LLEWELYN, Gwylfa, Conwyl Elfed. Mab ydoedd i'r diweddar Mr. a Mrs. Lewis, Heol-y-felin, Trecynon. Ac yntau yn 56 fe'i galwyd yng nghanol ei fywyd a gedy weddw a mab a merch ar ei ôl mewn hiraeth dwys. Adnabyddwyd ef yn ei gymdogaeth newydd fel dyn mwynaidd, cyfeillgar a charedig. Hoffai sôn am Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon a mynych y gwelwyd ef yn y gwasanaethau ym Mhanteg. Daearwyd ei weddillion y dydd Mercher dilynol ym mynwent Capel Iwan lle gorwedd gweddillion ei dad a'i fam yng nghyfraith, y diweddar Mr. a Mrs. Evans a oedd gynt yn ysgolfeistr Cilrhedyn. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. S. E. Bowen a fu am gyfnod yn is-athro yn ysgol Penywaun. Gwasanaethwyd hefyd gan y Parchn. H. R. Charles a D. J. Lewis, offeiriaid Conwyl Elfed ; y Parch. W. Thomas, Capel Iwan (A) ac I. A. Jenkins, Rehoboth (B). Yr oedd nifer o berthnasau a chyfeillion wedi teithio o Aberdâr i dalu'r gymwynas olaf iddo. Cysur y nef i'r teulu yn ei galar.

Nodion yr Eglwysi.

AMSTERDAM.—Bydd y Parch. S. E. Bowen yn un o'r teulu mawr Cristnogol yng nghynhadledd fyd-eang Amsterdam eleni. Pob bendith arno ac ar waith y cyfarfodydd.

LLONGYFARCH.—Ennillodd Mr. Carrellio Morgan o Aberystwyth ei drigeinfed Cadair Eisteddfodol yn ddiweddar.

CAMGYMERIAD.—Pedwar ugain a naw yw oed y Parch. David Evans, nid pedwar deg a naw. Yr oedd ein gohebydd yn mynd wrth yr olwg mae'n debyg !

ENWI GWEINIDOG.—Enwyd y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr gan Gyngor y dref fel eu dewis ŵr ar gyfer Cyngor Ymgynghorol Cymru.

ALLTYPLACA.—Ar adeg ymweliad Mrs. Nightingale, Llywydd Cyffredinol Urdd y Benywod â Cheredigion, gwasanaethodd ar brynhawn Sul, Mawrth 6, yng Nghapel Alltyplaca. Cafwyd cynnulleidfa gref ac fe draethodd hithau ar y pwnc o ddyled benywod i'r Iesu. Hir gofir am ei ffordd effeithiol o fynegi'r neges.

(*Bu raid gohirio ysgrif J.I.J. ; Aberystwyth ac Adolygiadau.*)

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

CYNHELIR

CYRDDAU'R PASG

YNG

NGHAPEL-Y-CWM

Nos FAWRTH a Dydd MERCHER, EBRILL 19 a 20, 1949

Nos Fawrth am 7 o'r gloch :
Parchn. E. O. JENKINS a LEWIS WILLIAMS.

Dydd Mercher am 1.30—PWYLLGOR Y GYMDEITHAS.
3.0—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.
6.30—Y Parch. NOEL JAMES, B.A. a'r
Prif Athro J. D. JONES, B.A., B.D.

S. E. BOWEN, *Ysgrifennydd.*

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Llandysul